Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**

# *ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19*

**AELODAETH**

Cadeirydd: David Rees AC (Ail-etholwyd 6 Tachwedd 2018)
Is-gadeirydd Nick Ramsay AC (Ail-etholwyd 6 Tachwedd 2018)
Is-gadeirydd: Dr Dai Lloyd AC (etholwyd 6 Tachwedd 2018)
Huw Irranca-Davies AC
Mark Isherwood AC
Suzy Davies AC
Jack Sargeant AC

Cydgysylltydd: Leigh Jeffes, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (ailbenodwyd 6 Tachwedd 2018, hyd at fis Gorffennaf 2019).
Niall Sommerville, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (o fis Gorffennaf 2019)

**Aelodau allanol:**

Cerian Angharad (Y Gymdeithas Addysg Wyddoniaeth); Yr Athro Keith Smith (Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol); Dr Stephen Benn (Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol); Bob Cater (Cynllun Addysg Peirianneg Cymru); Yr Athro Tom Crick MBE (Prifysgol Abertawe); Dr Robert Hoyle (Prif Swyddog Gwyddonol, Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol); Dave Harwood (Y Sefydliad Peirianneg Fecanyddol); Yr Athro Peter Halligan (Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru); Dr David Cunnah (Sefydliad Ffiseg); David Jones (Y Gymdeithas Ddaearegol); Yr Athro Ian Wells (Y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg); Yr Athro Paul Harrison, Prifysgol De Cymru); Yr Athro Faron Moller (Technocamps); Wendy Sadler MBE (Science Made Simple); Yr Athro Mike Edmunds (Y Gymdeithas Seryddiaeth Frenhinol); Keith Jones (Sefydliad y Peirianwyr Sifil); Dr Paul Hutchings (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Andrew Mackenzie (Y Gymdeithas Ffisiolegol); Dr Rob Janes (Y Brifysgol Agored); Yr Athro Alan Shore (Cymdeithas Ddysgedig Cymru); Yr Athro Mike Charlton (Cymdeithas Ddysgedig Cymru); Dr Geertje van Keulen, (Y Gymdeithas Microbioleg); Yr Athro Mike Charlton (Cymdeithas Ddysgedig Cymru); Jenny Scott Y Cyngor Prydeinig); Stephen Lawrence (Sefydliad y Peirianwyr Sifil); Dr Matthew Allen (Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd); a Dr Emily Bristow (cynrychiolydd busnes).

**CYFARFODYDD**

Cyfarfu'r Grŵp dair gwaith:

**6 Tachwedd 2018** (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) – Siaradwr Gwadd: Dr. Paul B. Hutchings, Cyfarwyddwr Rhaglen Seicoleg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a Chadeirydd Cymdeithas Seicolegol Prydain yng Nghymru. Rhoddodd Dr Hutchings gyflwyniad ar Seicoleg yng Nghymru: Ymarfer, Ymchwil a Pholisi.

**5 Mawrth 2019** - Siaradwr Gwadd: Rhoddodd Mr Sam Evans, Cyfarwyddwr Ansawdd a Materion Allanol, Newport Wafer Fab,

gyflwyniad ar 'Y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a'r cyfle sydd ger ein bron'
**2 Gorffennaf 2019** - Siaradwr Gwadd Emily Bristow, Cyfarwyddwr Llwyddiant Cwsmeriaid, Blue Prism.

Siaradodd Emily am 'Awtomeiddio a'r ffordd y bydd robotiaid yn trawsnewid y gweithle.'

**GWYDDONIAETH A'R CYNULLIAD 2019**

Cynhaliwyd 15fed digwyddiad *Gwyddoniaeth a'r Cynulliad* y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ar 4 Mehefin yn y Pierhead a'r Senedd, mewn cydweithrediad â chymuned gwyddoniaeth a pheirianneg Cymru. Y thema oedd: 'Addysg a Sgiliau'.

Siaradodd David Rees AC, y Cadeirydd, Dr Dai Lloyd AC a Nick Ramsay AC, sef yr Aelodau a oedd yn noddi, yn y derbyniad gyda'r nos. Rhoddodd Kirsty Williams CBE AC, y Gweinidog Addysg, a Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau annerchiad hefyd i'r cynrychiolwyr.

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd darlith yn ymwneud â Chenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r teitl: ***From Blackholes to Brains - inspiring the future scientists of Wales*** a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Neuadd cyn cyflwyniadau'r prynhawn. Roedd disgyblion o ysgolion lleol yn bresennol. Y siaradwyr oedd y Prif Gynghorydd Gwyddonol, yr Athro Peter Halligan, Wendy Sadler MBE a'r Athro Derek Jones.

---

**DATGANIAD ARIANNOL**

Gwnaeth y Gymdeithas Gemeg Frenhinol dalu Charlton House Catering Cyf am gost y lluniaeth yn y tri chyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

6 Tachwedd 2018: £57.96
5 Mawrth 2019: £68.22
2 Gorffennaf 2019: £66.78

**Cyfanswm: £192.96**

Nid oedd unrhyw wariant arall

---

**Niall Sommerville**
**Ysgrifennydd, Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**
**Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol**
**Rheolwr Materion Cyhoeddus**
Tachwedd 2019